


Antur

Roedd anturiaethwyr o Ffrainc, Denmarc, Gweriniaeth Tsiec, Sweden, Sbaen, Yr Iseldiroedd, Colombia, yr Ariannin a Gogledd America yng Nghymru ym mis Awst.



Pam?

Ras Antur Cymru

Hyd:	660km
Amser:	5 diwrnod
Y digwyddiad cyntaf:	Dydd Sadwn, Awst 9, rafftio dŵr gwyn yng Nghaerdydd.
	Yna...
	Dydd Sul, Awst 10, teithio i'r gogledd a gwersylla dros nos.
Dechrau'r ras:	Dydd Llun, Awst 11, Castell Caernarfon
Gorffen y ras:	Dydd Gwener, Awst 15, Caerdydd

Gan mai ras antur oedd hon, roedd rhaid i'r anturiaethwyr gymryd rhan mewn gwahanol fathau o weithgareddau anturus, e.e.



- caicio
- beicio
- cyfeiriannu (o dan y ddaear mewn un lle!)
- trecio
- rhedeg
- zipio ar draws gwifren wib.

Roedd rhaid i'r anturiaethwyr ffeindio'u ffordd a rasio ar draws mynyddoedd, ar hyd afonydd, o gwmpas cestyll, o dan y ddaear ac o gwmpas tref. Roedd hi'n daith ddiddorol - a heriol.

"Rydyn ni wedi ceisio mynd â'r ras i rai o ardaloedd gorau Cymru, lle mae golygfeydd hardd, hanes a diwylliant diddorol. Felly, bydd y timau o dramor nid jyst yn rasio ond byddan nhw'n gweld lleoedd enwog fel cestyll - ac, os ydyn nhw'n lwcus, efallai draig!" meddai un o'r trefnwyr.

I ddarllen mwy am y ras [cliciwch yma](#).

Mae mwy o wybodaeth am y ras yn **Tasg 1**.

Diolch i Rob Howard am wybodaeth am y ras yma.

Dwy linell fach bwysig

Mae symbol mathemategol wedi teithio i bedwar ban y byd, diolch i Gymro o Dde Cymru.

Pwy oedd y dyn?

Robert Recorde



Enw:

Robert Recorde

Geni:

Tua 1510,
Dinbych-y-pysgod

Marw:

1558, Llundain

Gwaith:

Mathemategydd a meddyg

Ffeithiau diddorol:

- Roedd Robert Recorde yn feddyg i'r brenin Edward VI ac yna, ar ôl ei farwolaeth, i'r Frenhines Mari - Mari Waedlyd.
- Yn 1549, roedd e'n bennaeth y bathdy brenhinol ym Mryste - lle roedden nhw'n gwneud arian.

Pam roedd e'n bwysig?

- Fe oedd y person cyntaf i gyhoeddi llyfr rhifyddeg yn Saesneg.
- Fe ddyfeisiodd y symbol byd-enwog yma:

=

Dyma'r symbol sy'n dangos bod rhywbeth yn hafal i rywbeth arall, e.e.

$$2 + 2 = 4$$

Disgrifiodd e'r symbol fel "Dwy linell gyfochrog yr un maint - dwy linell sy'n berffaith hafal i'w gilydd, fydd byth yn dod at ei gilydd."

- Mae pobl ar draws y byd yn defnyddio'r symbol yma heddiw - symbol gan Gymro i bedwar ban y byd.

Bananas peryglus

Rydyn ni'n cael ein bwyd o bob rhan o'r byd, e.e.

- Pinafalau o Dde-ddwyrain Asia
- Gellyg o Ariannin, De America
- Grawnwin o'r Aifft
- Mefus o Sbaen.

Ydy, mae'n bwyd ni'n dod o bedwar ban y byd. Ond tybed oes rhywbeth arall yn dod gyda'r bwyd weithiau?



Corryn neu bry cop yw'r anifail bach yma. Dyma'r **False Widow Spider**.



Enw: False Widow Spider (Mae'n debyg i'r Black Widow.)

Enw gwyddonol: Steatoda nobilis

Lliw: Corff brown gyda marciau lliw hufen o gwmpas yr abdomen, coesau coch.

Hyd y corff: Heb y coesau: benyw: 8–15mm; gwryw: 7–10mm
Gan gynnwys y coesau: benyw: 20–32mm; gwryw: 16–22mm

Byw: Yn wreiddiol yn yr Ynysoedd Dedwydd, Madeira, Affrica, Ewrop ond heddiw ym Mhrydain hefyd.

Bwyta: Pryfed, corynnod eraill.
Gwenwynig: Dyma'r corryn mwyaf gwenwynig ym Mhrydain.

Oeddech chi'n gwybod bod cannoedd - miloedd efallai - o'r corynnod hyn yn byw yng Nghymru erbyn heddiw? Maen nhw'n byw mewn corneli tywyll, cynnes - yn y gegin efallai ... neu tu ôl i'r cwpwrdd yn y lolfa o bosib ... neu o dan eich gwely chi ... neu hyd yn oed rhwng eich gobennydd a'r wal, efallai? (Gwell i chi wirio heno cyn diffodd y golau!!).

Sut maen nhw wedi dod i Gymru?

Mae'r ateb yn syml - mewn bocsys bananas! Mae arbenigwyr yn meddwl eu bod nhw'n sleifio i mewn i'r bocsys a'u bod nhw'n teithio gannoedd o filltiroedd i Gymru yng nghanol y bananas. Yna, pan fydd y bananas yn cael eu rhoi ar y silffoedd mewn siopau, mae'r corynnod yn dod allan o'r bocsys. Pan fyddwn ni'n prynu'r bananas ac yn mynd â nhw adre, mae'r corynnod yn ymgartrefu yn ein tai - mewn corneli tywyll yn y gegin ... tu ôl i'r cwpwrdd yn y lolfa ... o dan y gwely ... neu hyd yn oed rhwng y gobennydd a'r wal efallai!

Mae pobl ar draws Cymru wedi dod ar eu traws nhw mewn gwahanol leoedd ac maen nhw'n beryglus. Maen nhw'n brathu ac mae'r gwenwyn yn mynd i mewn i'r corff. Rhaid cael triniaeth ar unwaith.

Felly, y tro nesaf y byddwch chi'n prynu bananas - neu'n cymryd banana o'r bowlen ffrwythau - byddwch yn ofalus - yn ofalus iawn!

BANANAS!

Oeddech chi'n gwybod?



- Dydy bananas ddim yn tyfu ar goed - er eu bod nhw'n tyfu'n uchel oddi ar y ddaear. Maen nhw'n tyfu ar berlysiâu. Dail sydd o gwmpas boncyff y planhigyn - nid pren - ac felly nid coeden yw'r planhigyn, ond perlysiuyn.

- Mae tua 1000 o wahanol fathau o fananas ac maen nhw'n tyfu mewn mwy na 150 o wledydd yn y byd.

- Mae croen banana yn ddefnyddiol iawn. Gallwch chi ei ddefnyddio i lanhau'ch esgidiau chi.

Bwyd Bob Evans

Beth ydych chi'n hoffi bwyta i ginio?



Beth am ...?

Gallwch chi gael y rhain i gyd - a llawer iawn mwy - os ewch chi i un o *diners* Bob Evans yn America.

Pwy oedd Bob Evans?



I ddechrau, roedd gan Bob Evans fferm a thŷ bwyta yn, Ohio. Tŷ bwyta bach oedd e, gyda lle i 12 person fwyta. Roedd y bwyd yn dda ond roedd un broblem - doedd Bob Evans ddim yn gallu dod o hyd i selsig oedd yn ddigon da i'w gwerthu yn ei dŷ bwyta.

Felly, yn 1948, penderfynodd ladd moch o'i fferm ei hun a defnyddio'r darnau gorau o gig i greu selsig ar gyfer ei dŷ bwyta. Roedd y selsig yn flasus - yn flasus tu hwnt! Yn ôl y gyrywyr lori oedd yn aros i fwyta yn y tŷ bwyta bach, rhain oedd y selsig gorau yn America.

Datblygodd y busnes. Aeth un tŷ bwyta'n ddau dŷ bwyta ac yn y blaen a dyma ddechrau'r gadwyn *Bob Evans Diners*. Erbyn heddiw, mae bron 600 o dai bwyta Bob Evans yn America. Yn ogystal, mae'r fferm lle roedd Bob Evans yn byw wedi datblygu'n lle poblogaidd hefyd - mae croeso i bobl ymweld, i gael pryd o fwyd ac i wersylla yno. Mae hyd yn oed gŵyl arbennig yn ystod ail benwythnos mis Hydref bob blwyddyn - Gŵyl Bob Evans!

Ond beth yw'r cysylltiad â Chymru?

BOB EVANS A CHYMRU

Roedd Bob Evans yn dod o deulu Cymraeg...

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan oedd bywyd yn anodd iawn yng Nghymru, penderfynodd rhai o bobl Ceredigion ymfudo i Ogledd America i chwilio am waith. Aeth llawer i ardal Gallia a Jackson, yn Ohio, ble roedd Bob Evans yn byw yn ddiweddarach.

Roedd e'n ddisgynydd i rai o'r Cymry yma.

Felly, meddylwch am hyn...

... petai teulu Bob Evans ddim wedi teithio'r holl ffordd o Geredigion i Ohio, amser maith yn ôl, fyddai dim Diners Bob Evans o gwmpas America heddiw - a dyna golled!

MAE CYMDEITHAS GYMRAEG YN OHIO HEDDIW.

www.welshsocietyofcentralohio.org/

Y DDRAIG GOCH YN AMERICA

Mae draig goch ar faner Rio Grande heddiw:



O Gymru i'r Gofod

Newyddion

O Gymru i'r Gofod

Hoffech chi deithio i'r gofod?

Wel, mae'n bosib y byddwch chi'n gallu teithio o Gymru ymhell, bell i'r gofod cyn bo hir – os oes digon o arian gyda chi, wrth gwrs.

Sut hynny? Mae'r llywodraeth yn ystyried maes awyr yng Ngwynedd fel lle ar gyfer lansio rocedi yn y dyfodol agos - rhyw fath o faes rocedi.

Mae'r maes awyr yma yn Llanbedr, Gwynedd, yng nghanol Parc Cenedlaethol Eryri ac mae'n un o 8 o leoliadau posibl sy'n cael eu hystyried.



Gyda chwmnïau fel Virgin yn ystyried trefnu gwyliau yn y gofod, mae'n amlwg bod y syniad o deithio i'r gofod yn dod yn fwy poblogaidd ac ymhen hir a hwyr efallai y bydd mynd am drip bach i'r orsaf gofod, neu hedfan o gwmpas y lleuad, yn dod mor gyffredin â mynd i Lundain am y penwythnos. Pwy a wŷr?


“Byddai cael maes rocedi yn Llanbedr yn wych i'r ardal achos byddai'n dod â llawer o swyddi yma,” dywedodd un o bobl yr ardal, “Byddai'n rhoi Llanbedr ar y map!”

Ond mynegodd un arall amheumon, “Maes rocedi yng nghanol Parc Cenedlaethol Eryri! Bobl bach, beth nesaf!”

O Gymru i'r Caribî

Hoffech chi deithio i Alaska ... ac yna ymlaen i Norwy ... ac yna hwylio o gwmpas Ynysoedd Prydain ... ac yna ymlaen i Fôr y Caribî - a chael eich talu am wneud?

Dyna mae merch o Orllewin Cymru yn ei wneud. Mae hi'n teithio... teithio... teithio ... i bedwar ban y byd



Enw: Bethan Allison

Dod o: Trefdraeth, Sir Benfro

Ysgol gynradd: Ysgol Eglwyswrw

Ysgol uwchradd: Ysgol Uwchradd Aberteifi

Prifysgol: Prifysgol Swydd Gaerloyw (yn Cheltenham)

Diddordebau: Teithio, cymdeithasu, nofio, beicio

Byw ar hyn o bryd: Mewn llong ar y môr (6 mis ar y môr, 2 fis o wyliau; yna, 6 mis ar y môr eto a 2 fis o wyliau eto ac ati)

Swydd bresennol: Pyrser Cynorthwyol Iau (Junior Assistant Purser)

Swyddi blaenorol: Gweithio mewn tai bwyta a gwestai, bariau a chanolfan wyliau. Gweithio mewn gwesty yn Baltimore, America, am flwyddyn. Gweithio a theithio ar draws Awstralia, 2010-2013, e.e. gweithio'n wirfoddol yn yr Outback, gweithio yn y diwydiant bwyd ym Melbourne
Hefyd, gofalu am blant

Pam mae hi'n teithio...teithio...teithio...? Darllenwch y sgwrs yma.

Gweiddi: Beth ydy'ch gwaith chi nawr, Bethan?

Bethan: Dw i'n gweithio ar long wyliau fawr, ar y ddesg Gwasanaethau i Deithwyr. Mae hyn yn golygu ateb cwestiynau'r teithwyr, rhoi help pan fydd angen a gwneud gwaith gweinyddol.

Gweiddi: Ydych chi'n mwynhau?

Bethan: Ydw, yn fawr iawn. Dw i wrth fy modd. Dw i wedi cwrdd â phobl ddiddorol a dw i wedi gweld golygfeydd anhygoel!

Gweiddi: Ble rydych chi wedi bod hyd yma?

Bethan: Dw i wedi bod i Fôr y Caribî, Alaska, Norwy, Efrog Newydd, Quebec ac ar fordaith o gwmpas Gwledydd Prydain.



Gweiddi: Ydych chi wedi cael unrhyw brofiadau diddorol?

Bethan: Y llynedd, roedd rhaid i ni gysgodi rhag corwynt am dri diwrnod. Hefyd, dw i'n dilyn cwrs diddorol iawn ar y llong ar hyn o bryd - cwrs am fadau achub. Dw i'n dysgu llawer ac mae'n brofiad gwych.

Gweiddi: Pam wnaethoch chi ymgeisio am y swydd hon ar long?

Bethan: Er mwyn cael teithio, wrth gwrs, ond hefyd er mwyn cael profiad gwahanol.

Gweiddi: Sut rydych chi'n delio gyda chwsmeriaid anodd?

Bethan: Dw i'n gwenu a dw i ddim yn cymryd beth maen nhw'n ei ddweud yn bersonol.

Gweiddi: Sawl awr rydych chi'n gweithio bob dydd?

Bethan: Dw i'n gweithio rhwng naw a deuddeg awr bod dydd, saith diwrnod yr wythnos.

Gweiddi: Beth ydy'ch gobeithion chi am y dyfodol?

Bethan: Hoffwn i gael dyrchafiad ond dw i eisiau parhau i ddysgu a mwynhau fy hun.

Gweiddi: Pa dri gair fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio'ch bywyd chi ar hyn o bryd?

Bethan: Hwyl! Cyffrous! Gwych!

Dirgelwch y lluniau

Edrychwch ar y lluniau hyn a darllenwch y wybodaeth yn ofalus.



Enw: Airbus

Ble: O gwmpas y byd i gyd

Beth: "Teulu" o awyrennau

Mwy o wybodaeth:

- Maen nhw'n cael eu defnyddio i gludo teithwyr.
- Mae rhai'n fawr iawn – maen nhw'n cludo hyd at 853 o deithwyr.
- Mae gan yr awyrennau mwyaf ddau lawr.
- Mae awyrennau llai'n cludo rhwng 100 a 220 o deithwyr.
- Maen nhw'n gyfforddus iawn.



Enw: Côr y Cewri (Stonehenge)

Ble: De Lloegr

Beth: Cylch o gerrig

Mwy o wybodaeth:

- Maen nhw'n dyddio o 2000CC-3000CC – cyn pyramidiau'r Aifft.
- Mae rhai pobl yn meddwl bod Stonehenge yn lle crefyddol lle roedd pobl yn arfer dod i addoli amser maith yn ôl.
- Mae rhai pobl yn meddwl mai lle ar gyfer llosgi neu gladdu cyrff marw ydoedd.
- Mae rhai pobl yn dod yma ar Fehefin 21 i ddathlu diwrnod hiraf y flwyddyn



Beth: Bwthyn ar lan y môr

Ble: Sir Benfro

Mwy o wybodaeth:

- Mae cregyn ar waliau'r tŷ.
- Mae dau berson sydd newydd briodi yn byw yn y tŷ hwn.
- Maen nhw'n cael ymwelwyr - 3 pherson ifanc sy'n ceisio dianc rhag pobl ddrwg.



Beth: Siwt fach las smart

Ble: Mewn sioe ffasiynau

Mwy o wybodaeth:

- Roedd y wisg hon yn rhan o sioe ffasiynau Llundain
- Jacquetta Wheeler ydy enw'r fodel ac roedd hi'n modelu dillad y cynllunydd dillad, Julien Macdonald.

Beth yw'r cysylltiad rhwng y lluniau yma?

Trafodwch hyn mewn grŵp.

Os ydych chi eisiau mwy o gliwiau, edrychwch ar y daflen ar gyfer **Tasg 1**.

Mae'r atebion ar y daflen ar gyfer **Tasg 2**.

Batio ar draws y byd

Mae Megan ac Angharad Phillips, o Ddinbych, wedi bod i 28 o wledydd gwahanol - ond nid fel twristiaid. Maen nhw wedi bod yno i chwarae mewn cystadlaethau tennis bwrdd ac yn ystod haf 2014, buon nhw'n chwarae dros Gymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn Glasgow hefyd.



Y dechrau

Dechreuon nhw chwarae pan oedden nhw'n ddeg oed - pan gawson nhw fwrdd tennis bwrdd yn anrheg Nadolig. Roedden nhw wrth eu bodd ac felly penderfynon nhw ymuno â chlwb tennis lleol.

Roedden nhw'n mwynhau cymaint dechreuon nhw ymarfer o ddifri am tua 10 awr yr wythnos, gan gynyddu'r oriau i 20 awr yr wythnos erbyn iddyn nhw gyrraedd y chweched dosbarth. Roedden nhw'n chwarae ddwywaith y dydd fel arfer - yn y bore cyn mynd i'r ysgol, yna fin nos, ar ôl gorffen eu gwaith ysgol, neu weithiau yn ystod gwersi rhydd yn yr ysgol.

Heddiw

Erbyn heddiw, maen nhw wedi teithio i 28 gwlad wahanol er mwyn ymarfer a chystadlu mewn cystadlaethau gwahanol.

Maen nhw hyd yn oed wedi bod yn byw yn yr Almaen am 8 mis, yn chwarae i dîm mewn cynghrair yno. Penderfynon nhw wneud hynny yn lle mynd i'r brifysgol yn syth o'r ysgol.

Ble roedd y lle gorau?

Yn ôl Megan ...



"... Las Vegas oedd y lle gorau i mi. Roeddwn i'n cystadlu yng nghystadleuaeth yr US Open, ond ar ôl y gystadleuaeth fe gawson ni ychydig o amser i grwydro'r ardal. Mae'r 'strip' yn Las Vegas yn hynod o ddiddorol ac roeddwn i'n mwynhau gweld y 'dinasoedd' bach o fewn Vegas fel 'Paris bach'. Wnaethon ni fynd ar daith i'r Grand Canyon hefyd. Ces i syndod i weld maint y Grand Canyon. Mae o'n anhygoel!"

I Angharad, y lle mwyaf diddorol oedd ...

"... India - ond roedd o'n dipyn o sioc hefyd oherwydd y gwahaniaeth rhwng bywyd y bobl dlawd a'r bobl gyfoethog.



Gwelais i'r ardaloedd shanti ble mae'r bobl dlawd yn byw yn eu tai bychain a'u hysgolion - sydd ddim mwy na siediau o bren a dweud y gwir. Ond roedd rhai lleoedd prydferth iawn, fel y Taj Mahal - roedd o'n brofiad arbennig iawn cael gweld yr adeilad hwn. Dw i wedi bod i India bedair gwaith erbyn hyn ar gyfer gwahanol gystadlaethau, ond, yn bendant, fy hoff drip i India oedd pan oeddwn i'n chwarae yng Ngemau'r Gymanwlad yn 2010. Fel tîm, gorffennon ni'n 10fed yn y gystadleuaeth y tro hwnnw."

Gemau'r Gymanwlad, 2014



Roedd cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad yn 2014 yn brofiad anhygoel, fel y mae Angharad yn egluro:



"Roedd pentref yr athletwyr yn anhygoel! Roedd Tîm Cymru wedi gwneud ymdrech fawr i wneud i ardal Cymru edrych mor Gymreig â phosib ac felly roedd teimlad cryf o undod yno. Ond y profiad gorau i mi oedd cerdded i mewn i'r stadiwm yn y Seremoni Agoriadol o flaen miloedd o bobl - a gallu gweld baneri Cymru yn y dorf!

"Yn y gystadleuaeth tîm, wnaeth tîm menywod Cymru gyrraedd yr 8 olaf. Roedden ni'n hapus iawn gyda hyn oherwydd dyma'n targed ni cyn i'r Gemau ddechrau. Yn y dyblau cymysg, wnaeth fy mhartner, Connor Edwards, a fi gyrraedd y 32 olaf, ac yn y dyblau menywod, wnaeth Chloe Thomas a fi gyrraedd yr 16 olaf. Yn ogystal â hyn, cyrhaeddodd Megan, fy chwaer, y 32 olaf yn y gystadleuaeth i unigolion - allan o 128 o gystadleuwyr.

"Rydyn ni'n gobeithio gallu mynd ymlaen i Gemau'r Gymanwlad nesaf yn 2018 nawr!"

Pob lwc iddyn nhw yntê!

Antur Fawr

At:	Chris@gwecym.net	
Oddi writh:	Samillwynog@gwecym.net	
Testun:	Helo o Batagonia	

Shwmae, Chris?

Rwy'n cael amser *amazing* (neu "anhygoel" fel mae Mr Williams yn dweud!) yma ym Mhatagonia. Roedd rhaid i bawb godi £2,000 cyn dod ond doedd hynny ddim yn broblem achos wnaethon ni gynnal parti gwisg ffansi, taith feicio noddedig a sioe ffasiynau. Ond 'na fe, rydyn ni yma nawr (am bythefnos!) ac mae bywyd yn hectig – yn hectig iawn!

Wnaethon ni gyrraedd ar ôl taith hir iawn. Yn gynta', aethon ni ar fws i faes awyr Heathrow, Llundain. Wedyn, dalion ni awyren i Rufain – roedd yr awyren yn llawn dop achos roedd llawer o dwristiaid yn dod yma i weld y golygfeydd! Wnes i eistedd wrth ochr menyw oedd wedi cael ei geni ym Mhatagonia. Mae hi'n dal i fyw yma – ac mae hi'n siarad Cymraeg!

Wedyn, roedd taith hir o Rufain i Buenos Aires ac, ar ôl cyrraedd, newidion ni eto a dal awyren arall i Batagonia. Wedyn, taith mewn bws i'r ardal yma. Taith hir - mwy na diwrnod o ddrws i ddrws.

Rydyn ni wedi bod yn fishi iawn ers cyrraedd - wedi bod yn helpu yn Ysgol yr Hendre (ysgol Sbaeneg a Chymraeg), wedi bod yn helpu mas yn y Fenter Iaith (maen nhw'n cynnal digwyddiadau Cymraeg yn yr ardal), wedi bod i gyngerdd - wnaethon ni i gyd ganu a gwneud sgets a, heno, rydyn ni'n mynd i asado - barbeciw. Tiwtoriaid Cymraeg yr ardal sy wedi trefnu hwn i ni. Byddwn ni'n cwrdd â rhai o'r dysgwyr sy'n dysgu Cymraeg yma. Rhyfedd meddwl bod pobl sy'n byw dros saith mil a hanner o filltiroedd i ffwrdd o Gymru yn dysgu Cymraeg!

Rydyn ni'n mynd ar daith i'r paith wythnos nesa ac mae llawer o bethau diddorol eraill wedi eu trefnu. Edrych ymlaen nawr. Ffaelu aros!

Wel, gorfod mynd i baratoi. Beth am gwrdd ar ôl i fi ddod gartre?

Wela i di.

Sam

Awst, 1865

Ar ôl gadael porthladd Lerpwl ar Fai 28, cyraeddasom Batagonia ar 28 Gorffennaf.

Hir fu'r daith a blinedig iawn. Cawsom stormydd enbyd a bu Mari a'r plant yn sâl am ddyddiau. Buom yn meddwl sawl tro a oedd y fenter yn werth ein holl arian. Wedi'r cyfan, talasom £12.00 yr un i Mari a mi a £6.00 i'r plant - swm sylweddol iawn.

Bu'n bleser cyfarfod â'n cyd-deithwyr yn ystod y daith. Rydym yn gwmni amrywiol o bobl - pregethwyr, glowyr, athro, meddyg, chwarelwyr, crydd, heb sôn am y gwagedd a'r plant. Yr ydym oll yn rhannu'r un weledigaeth, sef sefydlu gwladfa lle y gallwn fyw ein bywyd a chynnal ein diwylliant drwy gyfrwng ein mamiaith annwyl ac yr ydym oll yn barod i dreulio gweddill ein bywyd yn sicrhau hyn. Anodd yw credu, ar adegau, na fyddwn byth yn dychwelyd i'r hen wlad annwyl.

Hoffwn ddweud bod bywyd yn ddymunol iawn yma ond nid yw cystal â'r disgwyl, mae arnaf ofn. Yr ydym yn byw mewn ogofâu oherwydd prinder cartrefi amgenach ac ymddengys y tir yn ddiffaith ac yn ddiffrwyth. Nid oes llawer o ddŵr nac o fwyd ac yr ydym yn ofni gaeaf caled.

Symudwn i fyny'r dyffryn ymhen ychydig i chwilio am dir gwell - tir y gallwn ei ffermio a thyfu cnydau ynddo a magu anifeiliaid. Bydd rhaid gweithio'n ddi-baid i gynnal ein teuluoedd a'n diwylliant yma. Oes, mae llawer o waith o'n blaenau ond hyderaf y cawn lwyddiant.